Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

Cadeirydd y Pwyllgor
Cydraddoldeb,
Llywodraeth Leol a
Chymunedau

19.12.2019

Annwyl Gadeirydd

Ymchwiliad Cyfnod 1 i'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddaf yn canolbwyntio'n benodol ar faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Mae hynny'n golygu na fyddaf o reidrwydd yn rhoi sylw i holl feysydd y Bil fel yr amlinellwyd yng Nghylch Gorchwyl y llythyr ymgynghori, ond rwyf wedi defnyddio'r dull hwn er mwyn canolbwyntio ar feysydd sy'n cydweddu â'm cyfrifoldebau deddfwriaethol fy hun.

Sylwadau cyffredinol

Nodaf fod mwyafrif y cynigion a geir yn y Bil fel y'i cyflwynir yn ymddangos fel 'amlinelliad' yn unig, a bod cryn dipyn o'r manylion wedi'i adael i'w gynnwys mewn unrhyw Reoliadau a gyflwynir os daw'r Bil i rym. O'r herwydd mae wedi bod yn anodd gweld yn fanwl gywir faint o'r cynigion fydd yn gweithredu; nid wyf yn gwneud sylw uniongyrchol yma ynghylch a yw deddfwriaeth eilaidd yn briodol neu beidio ar gyfer gwneud y mathau hyn o newidiadau, yn hytrach, rwy'n nodi'n syml bod y diffyg manylder yn creu llawer o ansicrwydd wrth gnoi cil ar y cynigion a'u dadansoddi.

Pleidleisio yn 16

Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way
Abertawe/Swansea SA7 9FS
01792 765600

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

comisiynyddplant.cymru
childrenscommissioner.wales

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

Rwy'n falch o weld Pleidleisio yn 16 oed yn y Bil, er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer etholiadau lleol ac etholiadau cenedlaethol Cymru yn cydweddu â'i gilydd, wedi i Fil y Senedd ac Etholiadau gael ei basio fis diwethaf. Yn hytrach nag ailadrodd fy nhystiolaeth o'r ymchwiliad Cyfnod 1 ar gyfer y Bil hwnnw, rwyf wedi cynnwys dolen isod i'r sylwadau ysgrifenedig a gyflwynais yn flaenorol, oedd yn adlewyrchu pwysigrwydd y mater hwn i lawer o bobl ifanc rwyf wedi cwrdd â nhw ar draws Cymru. Yn gysylltiedig â hyn, wrth gwrs, mae galwad am fwy o addysg wleidyddol, sy'n fwy awdurdodol; rwy'n ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i ddatblygu deunyddiau ar gyfer plant a phobl ifanc cyn Etholiadau'r Cynulliad yn 2021 ac rwy'n sylwedydd ar y gweithgor sy'n gyfrifol am hynny. Rwy'n awyddus i sicrhau bod y gwaith hwn yn galluogi pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion gweithredol a gwybodus.

Mae'r galwadau am fwy o eglurder yn yr wybodaeth i bobl ifanc yn taro tant gyda mi; mae pobl ifanc wedi dod at y mater hwn gyda chryn dipyn o barch ac urddas, ac maen nhw'n gweld pleidleisio fel cyfrifoldeb mawr. Mae'n hanfodol bod eglurder ynghylch sut mae'r broses bleidleisio'n gweithio, ac o'r herwydd rwy'n ansicr ynghylch y rhesymeg y tu ôl i'r cynigion i ganiatáu i ardaloedd awdurdodau lleol unigol benderfynu a ydynt am ddefnyddio system bleidleisio Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy neu system bleidleisio Cyntaf Heibio'r Postyn (FPtP). Ar adeg pan fo newid sylweddol ar waith yng nghyswllt etholiadau lleol a chenedlaethol yng Nghymru, mae'n fy nrysu i bod modd cyflwyno gwahanol systemau pleidleisio ochr yn ochr â'r cynigion hyn. Rwy'n teimlo y dylai pobl ifanc sydd wedi gofyn am wybodaeth glir a hygyrch ynghylch y broses gael gwrandawiad, ac na fydd y newid ychwanegol hwn o reidrwydd yn rhoi iddyn nhw'r eglurder maen nhw wedi'i geisio yn hyn o beth.

<u>Gwahardd ymgeiswyr</u>

Eto, yn dilyn pasio Bil y Senedd ac Etholiadau yn llwyddiannus, rwy'n falch o weld cyflwyno gwaharddiad penodol ar ymgeiswyr sy'n destun gofynion hysbysu o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, neu sydd ag euogfarnau troseddol heb eu treulio gyda chyfnod o 3 mis o garchar neu fwy.

Un mater yr wyf wedi'i godi yn y gorffennol, gan gynnwys yn yr ymgynghoriad diwethaf ar ddiwygio llywodraeth leol, yw gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer aelodau etholedig. Daeth pryder diogelu posibl i'm sylw mewn perthynas â gwiriadau DBS i wleidyddion, gan gynnwys cynghorwyr lleol, Aelodau Cynulliad neu Aelodau o Senedd y Deyrnas Unedig. Isod byddaf yn cyflwyno'r brif ddeddfwriaeth ynghylch y sefyllfa hon a'r materion a allai godi yn sgîl hynny.

O dan Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974, nid yw'n ofynnol bod ymgeiswyr yn datgelu unrhyw euogfarnau a dreuliwyd wrth geisio cael eu hethol. Byddai euogfarnau o'r fath i'w gweld mewn gwiriad DBS manwl, sy'n ofynnol ar gyfer ystod o bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant ac yn cael eu cyflogi gan eu cyngor lleol, gan gynnwys Athrawon neu Weithwyr Cymdeithasol. O dan Atodlen 10 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008, estynnir y sefyllfa fel nad oes gofyn datgelu unrhyw rybuddion neu rybuddiadau blaenorol chwaith.

Mae Atodlen 1 o Orchymyn Eithriadau Ailsefydlu Troseddwyr 1975 yn nodi rhai galwedigaethau nad yw'r ddarpariaeth uchod yn berthnasol iddynt, sy'n golygu bod rhaid i ymgeiswyr am rai galwedigaethau ddatgelu unrhyw euogfarnau, gan gynnwys rhai a dreuliwyd. Mae'r rhain yn cynnwys meddygon, cyfreithwyr, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid a Barnwyr, ond nid ydynt yn cynnwys Cynghorwyr, ACau nac ASau.

Lle mae ymgeiswyr wedi cael eu cyflogi'n flaenorol gan y cyngor y maent am gael eu hethol iddo, gallai fod gan y cyngor hwnnw wybodaeth berthnasol ynghylch ymddygiad neu euogfarnau blaenorol a allai olygu eu bod yn anaddas i sefyll yn yr etholiad. Fodd bynnag, ni fyddai caniatâd i'r cyngor rannu'r data personol sensitif hwn gyda'r blaid wleidyddol y mae'r ymgeisydd yn gobeithio cael ei ethol iddi, oherwydd Deddf Diogelu Data 1998; byddai gwneud hynny'n dramgwydd droseddol. Mae hyn yn creu sefyllfa lle na fyddai cyngor lleol yn barod i ganiatáu i berson weithio gyda phlant mewn rôl gyflogedig, ond byddai'n methu eu hatal rhag gweithio'n uniongyrchol gyda phlant petaent yn llwyddiannus yn yr etholiad.

Bydd gwleidyddion ar bob lefel, fel rhan o'u gwaith, yn dod i gysylltiad ag unigolion sy'n cynnwys plant a phobl ifanc, er enghraifft mewn cymorthfeydd etholaethol, ar ymweliadau neu mewn digwyddiadau. Gallant sefydlu prosiectau ieuenctid heb oruchwyliaeth. Bydd Cynghorwyr Lleol hefyd yn gallu cyrchu gwybodaeth bersonol, sensitif ynghylch plant mewn gofal trwy eu dyletswyddau rhianta corfforaethol.

Dylai aelodau o'r cyhoedd fedru troi at eu cynrychiolydd a etholwyd yn lleol gydag unrhyw bryderon neu faterion sy'n eu poeni heb ofni neu bryderu. Roeddwn i'n synnu i ddeall nad oes gofyniad DBS ar gyfer gwleidyddion etholedig; mae hynny'n rhywbeth yr oeddwn i'n tybio fyddai'n digwydd fel mater o drefn oherwydd natur y rôl maen nhw'n ymgymryd â hi.

Rwy'n deall bod statws swydd wleidyddol yn wahanol i fod yn un o gyflogeion cyngor lleol neu'r Llywodraeth genedlaethol. Ond mae gan aelodau etholedig statws wedi'i ddiogelu, ac mae hynny'n golygu bod symud person o'i swydd ar ôl ei ethol yn anodd iawn; eto, rwy'n deall y rhesymau am hyn mewn cymdeithas ddemocrataidd, ond mae felly o'r pwys mwyaf bod unrhyw ddarpar ymgeiswyr yn addas ar gyfer y rôl sydd i'w chyflawni.

Er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd a diogelwch pobl ifanc, agored i niwed, yn fy marn i dylid ychwanegu Swyddi Gwleidyddol at y rhestr o alwedigaethau eithriedig o dan Orchymyn 1975, fel bod gofyn i unrhyw ddarpar ymgeiswyr ddatgelu pob gwybodaeth, gan gynnwys euogfarnau a dreuliwyd, rhybuddion a rhybuddiadau.

Rwy'n cydnabod y byddai angen meddwl rhagor er mwyn ystyried ar ba adeg y dylai ymgeisydd gwblhau gwiriad DBS ac ai'r blaid wleidyddol neu'r corff deddfwriaethol y cânt eu hethol iddynt ddylai fod yn gyfrifol am weinyddu hynny. Fodd bynnag, nid wyf yn credu y dylai hynny atal y mater rhag cael ei archwilio'n fwy manwl, er mwyn diogelu pob dinesydd, ond yn arbennig plant a phobl ifanc.

Cyd-bwyllgorau Corfforaethol

Nid oes llawer o fanylion yn y cynigion ynghylch rhesymeg cyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforaethol newydd (CBCau).

Yn ystod 2019 rwyf wedi bod yn ymweld â'r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) ledled Cymru, er mwyn craffu ar eu trefniadau i ddarparu ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Mae hyn yn ofyniad statudol i'r byrddau hyn, ac mae gan asiantaethau partner unigol bŵer i gyfuno cronfeydd a gwneud cais am arian grant, er mwyn defnyddio dull gweithredu amlasiantaeth i ymdrin â materion. Byddaf yn adrodd ar fy nghanfyddiadau cyn diwedd Mawrth 2020, ond rhai ystyriaethau cychwynnol fyddai bod y Byrddau hyn wedi dod trwy'r 'cyfnod sefydlu' cychwynnol, a'u bod bellach yn aeddfedu fel bod ganddynt strwythurau a threfniadau llywodraethu newydd, fel sy'n addas i bob rhanbarth. Mae angen cyfnod bob amser i strwythurau newydd wreiddio a chanfod trefniadau gweithredu optimwm. Lle nad yw ffocws BPRhau ar anghenion plant a phobl ifanc wedi ymsefydlu'n hir, byddaf yn annog y Byrddau i adeiladu ar y

gwaith hwn er mwyn sicrhau bod ganddynt ddull system gyfan 'dim drws anghywir' ar gyfer gofalu am blant ag anghenion cymhleth.

Ochr yn ochr â BPRhau, mae hefyd Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BPCau); y llynedd fe ysgrifennais lythyr ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol at Gadeiryddion y Byrddau hyn, i ddarganfod sut maen nhw'n gweithredu ochr yn ochr ac mewn cydweithrediad â'i gilydd lle bo hynny'n briodol. Roedd yr adborth gawsom ni yn eitha cymysg, a chawsom ni'r argraff bod llawer o amser yn cael ei dreulio mewn cyfarfodydd hirfaith, lle roedd llu o bapurau i'w darllen ymlaen llaw; roedd rhywfaint o awydd i symleiddio peth o'r gwaith lle roedd modd, ac i sicrhau nad oedd rhaid i bobl fynychu nifer o gyfarfodydd ar yr un pynciau, neu bynciau oedd yn debyg iawn.

Rwy'n nodi nad yw BPRhau wedi'u cynnwys yn y rhestr o gyrff y mae'n rhaid ymgynghori â nhw wrth sefydlu CBC, er bod BGCau wedi'u cynnwys. Er nad yw'r swyddogaethau a bennwyd wedi'u cyfyngu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, bydd materion sy'n ymwneud ag addysg, trafnidiaeth, cynllunio a datblygiad economaidd yn berthnasol i'r Asesiadau o Anghenion Poblogaeth sydd ar waith gan y BPRhau.

Byddai'r CBCau newydd yn gyrff corfforaethol, ac felly'n gallu derbyn cyllid yn uniongyrchol a chyflogi eu staff eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthsefyll y dull gweithredu hwn yn y gorffennol mewn perthynas â BPRhau a BGCau, er gwaethaf adborth gan y ddau strwythur ynghylch y rhwystrau sy'n cael eu creu trwy fethu derbyn a gweinyddu arian grant fel endid penodol. Ar sail y dogfennau ymgynghori ni allaf weld beth oedd y rhesymeg ar gyfer creu'r strwythurau hyn ar y pynciau penodol dan sylw. Mae'r pynciau hyn hefyd yn berthnasol i Fyrddau eraill sydd eisoes yn bodoli, ond nid yw'n eglur sut byddai'r Byrddau hynny, sydd eisoes yn bodoli, yn gweithredu ar y pynciau hynny ochr yn ochr â'r strwythurau newydd hyn. Ar ben hynny, nodaf y potensial i'r CBCau

gymryd drosodd fusnes strwythurau eraill yn y man; nid oes llawer o fanylion ynghylch pa strwythurau na sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol.

Yn gyffredinol, roeddwn i'n ansicr beth yn union roedd y CBCau newydd yn ceisio'i gyflawni a sut maen nhw'n ffitio i dirlun presennol trefniadau partneriaeth eraill sy'n cynnwys cyrff cyhoeddus ledled Cymru. Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal adolygiad o bartneriaethau strategol yn ystod 2019, ac felly roeddwn i'n synnu i weld cyflwyno'r strwythurau newydd hyn cyn gweld canlyniad yr adolygiad hwnnw.

Tryloywder

Mae'r cynigion i gynyddu tryloywder, megis Strategaethau Cyfranogiad newydd, cynllun deisebau lleol ac Arweiniad i'r Cyfansoddiad ar gyfer y cyhoedd, yn arbennig o ddiddorol. Fodd bynnag, mae'n drawiadol na cheir sôn penodol am blant yma. Bydd yn eithriadol bwysig bod anghenion cyfathrebu plant yn cael eu hystyried yn rhagweithiol wrth ddatblygu cynigion ac adnoddau sy'n ceisio cynyddu tryloywder, gan na ddylai hynny fod yn rhywbeth i'r boblogaeth o oedolion yn unig.

O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mae hawl gan blant i dderbyn gwybodaeth mewn fformatau hygyrch ac i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Ar ben hynny, er mwyn hybu hawliau plant yng nghyswllt iechyd, chwarae a gweithgareddau hamdden, a chyllid digonol i gefnogi teuluoedd i ddiwallu eu hanghenion, mae angen iddynt fod yn rhan o ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau ar draws cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol. Mae fy nghanllaw i, Y Ffordd Gywir; dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant i gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rhoi arweiniad ymarferol i awdurdodau lleol ac eraill ynghylch sut mae cyflawni hyn, a phwysigrwydd gwneud hynny er mwyn gwella ansawdd y penderfyniadau a wneir a 'pherchnogaeth' gyhoeddus ar y penderfyniadau

hynny. Mae dyletswydd gyfreithiol ar bob corff cyhoeddus i gyfrannu at wireddu hawliau plant.
Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn cyd-fynd â'r dyletswyddau hyn, a bydd yn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Pum egwyddor Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yw:

•Gwreiddio hawliau plant – sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.
•Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu – sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.
•Grymuso plant – gwella galluoedd plant fel unigolion, fel eu bod yn medru manteisio'n well ar eu hawliau, ac ymgysylltu â'r sefydliadau a'r unigolion sy'n effeithio ar eu bywydau, gan eu galw i gyfri.
•Cyfranogiad – gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn.
•Atebolrwydd – dylai awdurdodau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn golygu y bydd sefydliadau'n rhoi blaenoriaeth i hawliau plant yn eu gwaith gyda phlant a theuluoedd er mwyn gwella bywydau plant, a bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i wneud yn fawr o'u doniau a'u potensial. Mae hynny'n cynnwys rhoi mynediad i blant i wybodaeth ac adnoddau, fel eu bod yn gallu manteisio'n llawn ar eu hawliau, a chyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch eu bywydau.
Mae hefyd yn golygu y dylai Awdurdodau ac unigolion fod yn atebol i blant am benderfyniadau, ac am ganlyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae egwyddorion y cynigion tryloywder newydd hyn, felly, yn cyd-fynd â dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, ond ar sail mynegiant presennol y cynigion, nid oes cydnabyddiaeth o sut bydd hynny'n cael ei hwyluso er mwyn cydymffurfio â dull gweithredu o'r fath.

Ar ben hynny, mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau eisoes mewn perthynas â sicrhau cyfranogiad plant o dan Fesur Plant a Theuluoedd 2010; roeddwn i'n synnu i weld nad oes cyfeiriad at hynny yn y drafft hwn, felly mae'n aneglur a yw'r cynnig hwn yn newid, yn estyn, yn disodli neu'n bodoli ochr yn ochr â dyletswyddau presennol.

Rwyf fi o'r farn nad yw'r cynigion hyn wedi'u datblygu'n ddigonol o ran eu cymhwyso i blant; rwyf wedi rhoi sylw manwl i'r Asesiad Effaith ar Hawliau Plant a byddaf yn dangos isod sut gallai hynny fod wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r ffordd o feddwl yn well mewn perthynas â'r cynigion hyn.

Asesiad Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

Rwy'n croesawu'r ffaith bod CRIA wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil drafft, yn unol â Chynllun Hawliau Plant 2014. Fodd bynnag, roeddwn i'n siomedig i nodi bod y CRIA yn canolbwyntio'n bennaf ar y cynigion Pleidleisio yn 16, ond ei fod yn dal heb gynnwys yr un lefel o fanylder a dadansoddiad â CRIA Bil y Senedd ac Etholiadau, oedd yn cyflwyno cymariaethau rhyngwladol, ac yn gweithio trwy elfennau cadarnhaol a negyddol amrywiol opsiynau. Mae'r CRIA yn eithriadol o eang ac yn datgan yn gyffredinol bod ymgysylltiad â bron holl hawliau plant, ac y bydd yr hawliau hynny'n elwa o system ddemocratiaeth gryfach, heb roi unrhyw sylw manwl i'r cynigion yn eu crynswth, eu dadansoddi na'u cymhwyso.

Mewn modd tebyg i'r Bil Iechyd (Ansawdd ac Ymgysylltu)(Cymru) a gyflwynwyd yn gynharach eleni, nid yw'n eglur o'r dogfennau a gyhoeddwyd sut mae rhai o'r cynigion wedi cael eu creu a'u datblygu, a ydynt yn berthnasol i blant neu beidio, ac os ydynt, i ba raddau a pha addasiadau gallai fod angen amdanynt er mwyn cymhwyso rhai darpariaethau penodol i blant a phobl ifanc. Mae'r darpariaethau Tryloywder yn enghraifft hollbwysig o hyn; mae'r cynlluniau'n

eang yn yr ystyr eu bod yn cyflwyno mecanweithiau cyfranogiad ac atebolrwydd newydd heb gydnabod o gwbl y gallai fod angen gwahanol ddulliau gweithredu/strwythurau/adnoddau er mwyn sicrhau bod hynny'n cyrraedd plant a phobl ifanc. Mae'r materion sy'n derbyn sylw gan CBCau yn eithriadol o berthnasol i fywydau beunyddiol plant a phobl ifanc, ac eto nid adlewyrchir sut bydd y cyrff hyn yn ceisio'u barn nac yn gweithredu ar sail y farn honno.

Mae'r CRIA yn adlewyrchu adborth mewn ymgyngoriadau blaenorol ynghylch diwygio llywodraeth leol yng nghyswllt hawliau plant, ond nid yw'n adlewyrchu sut mae'r pwyntiau hyn yn derbyn sylw yn y Bil sydd yn awr yn mynd gerbron, nac unrhyw beth sydd wedi cael ei newid o ganlyniad i'r adborth hwn.

Ni allwn weld unrhyw dystiolaeth yn y CRIA o ymgynghori â phlant a phobl ifanc ynghylch y cynigion cyfredol. Rwy'n ymwybodol bod peth ymgysylltu wedi digwydd o dan y cynigion blaenorol, pan fu Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol ar y pryd, Mark Drakeford, yn cwrdd ag aelodau o'm panel ymgynghorol a grwpiau llysgenhadon cymunedol yng Nghaerdydd a Llandudno.

Byddai CRIA mwy datblygedig o leiaf wedi nodi bod angen mwy o waith ac ystyriaeth, p'un ai ar yr adeg hon neu'n ddiweddarach yn y broses, er mwyn sicrhau bod plant yn cael sylw gweithredol yn ystod cyfnodau datblygiad polisi, a phan ddaw'r polisi ei hun yn weithredol, os daw'r Bil i rym. Er fy mod yn croesawu cynnwys y datganiad - "Bydd canllawiau a gyflwynir ochr yn ochr â'r ddyletswydd hon yn dangos yn eglur bod disgwyl i'r prif gynghorau feddu ar strategaethau clir a ffyrdd o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ac ymgorffori eu barn i'w prosesau gwneud penderfyniadau", yn fy marn i ni fydd hyn yn ddigonol i sicrhau bod yr holl brif gynghorau yn ymdrin â hyn mewn modd cyson, ac nid yw chwaith yn adlewyrchu sut bydd barn pobl ifanc yn bwydo i'r gwaith hwn.

Mae'r diffyg ystyriaeth yn y CRIA i'r pwyntiau yn y rhan olaf hon o'm llythyr yn fwlch pwysig yn fy marn i, ac o'r herwydd, byddwn i'n argymell edrych eto ar y CRIA.

Yn gywir

Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru